CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
COFNODION – CYFARFOD GORFFENNAF 2020

DYDDIAD	**Nos Fercher, 15fed o Orffennaf, 2020**
AMSER	**7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor**
LLEOLIAD	**Ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams**

1.	**Croeso**
	Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Michelle Williams. Yn bresennol roedd Elin Evans, Peter Roberts, Huw Rowlands, Nerys Evans, Rhodri Dwyfor, Aeron M Jones, Bryn Hughes ag Eleri Thomas (Clerc).
2.	**Ymddiheuriadau**
	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Thomas, Jason Hunt, Tom Ellis a Gwilym Williams.
3.	**Datgan Buddiant**
	Elin + Huw + Aeron - 5b aelodau o grŵp tacluso ardal Dinas.
4.	**Cadarnhau cofnodion 5ed o Fehefin, 2020 a materion yn codi**
	Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gyda MW yn cynnig ag RD yn eilio.
5.	**Materion Misol**
	a) NE – Llwybr Bryngwyn Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn dau bris gan Dylan Ffensio. Nid oedd Cwmni Gwalch eisiau ymgymryd ar gwaith gan nad oedd yn bosib iddynt roi gwarant arno. Gofynnwyd i'r Clerc holi am bris gan North Wales Fencing. b) Cais am grant Loteri Adroddwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i dderbyn grant o £9800 gan Gronfa Loteri Gymunedol, estynnwyd diolch i Aeron am ei holl waith o ennill y grant hwn. Trafodwyd bod rhestr o enwau'r bobl fregus yn cael eu hanfon mewn e-bost i'r cynghorwyr. Gofynnodd AMJ am gyfraniad o £250 tuag at gostau cynnal a chadw'r pentrefi e.e. prynu chwyn laddwr, cytunwyd i'r cyfraniad hwn. c) RD – Cerrig yn cau giatiau ar Lwybr Bryngwyn yn fwriadol (Cae'r Sais i Fryngwyn). Gofynnwyd i'r clerc anfon rhestr o'r holl lwybrau i RD + MW er mwyn gweld lle mae'r ffin. Angen cysylltu gyda'r Adran Llwybrau ynglŷn â llwybr Cae'r Sais. d) GW - byrst ar lon Cae Garw - angen i'r perchennog gysylltu gyda Dŵr Cymru gan mai ei hased nhw ydi'r bibell. e) PR - Wal ger Mountain Rangers wedi torri - MW i wneud ymholiadau ynglŷn â phwy sydd yn berchen ar y tir. f) RD – Beiciau modur yn mynd trwy'r pentref heb olau – Clerc wedi adrodd hyn i'r heddlu. g) RD – Loriau i Chwarel Moel Tryfan wedi cynyddu, ag i weld yn mynd i fyny ag i lawr yr un ffordd. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost o gais cynllunio amod ar gyfer hyn. Nodwyd fod un o'r lorïau wedi crafu tŷ ar lon bwmp a baw ar y ffordd. Nodwyd fod y cais amod wedi dod i ben a bydd y ffordd i lawr am Rhostryfan ar gau o'r 18fed ymlaen beth bynnag. h) EE - Tryfan Junction – angen ei atgyweirio, faint o amser a beth yw'r oblygiadau cau'r llwybr? Derbyniwyd amcan bris o £1075 gan y contractwr torri gwaith. Penderfynwyd derbyn y pris ag i barhau gyda'r gwaith atgyweirio, EE yn cynnig a MW yn eilio.

i) NE - CCTV ar eiddo personol yn ffilmio cerddwyr - Clerc wedi anfon e-bost gyda rheolau CCTV i NE. Clerc i anfon llythyr i'r CG yn egluro'r rheolau a gofyn iddynt anfon llythyr i'r perchennog.

j) EE – Baw ci ar Lon Eifion – clerc wedi anfon e-bost at CG ond heb dderbyn ymateb hyd yn hyn.

k) EE – Cysgodfannau angen eu glanhau – Clerc i holi'r contractwr pryd y cafwyd eu glanhau ddiwethaf.

l) Llwybr Waun Bant - Clerc wedi derbyn e-bost ynglŷn â'r contractwr yn tresmasu. Gofynnwyd i'r clerc ateb a chydnabod ei bod wedi derbyn yr e-bost.

m) Llwybr 143 – Fferm Bryn Rhodyn – coeden wedi disgyn – CG wedi delio gyda'r mater.

n) Mynwent Cefnfaes - derbyniodd y Clerc gwyn fod y gwair wedi tyfu'n fawr a blêr yn nghyfnod Sul y Tadau. Gofynnwyd i'r Clerc ymateb mewn llythyr yn egluro bod y fynwent yn cael ei thorri'n rheolaidd ac yn derbyn asesiad risg bob 6 x mis.

o) Swydd y Clerc - derbyniwyd e-bost gan y Clerc yn egluro bod ei sefyllfa bersonol wedi newid ag y byddai'n anodd iddi gwblhau holl waith y Cyngor Cymuned. Cytunodd y Cyngor i'r Clerc dreialu'r sefyllfa ag yna gweld sut oedd pethau'n gweithio allan.

6. Derbyn Adroddiadau

Dim i'w adrodd.

7. Materion Ariannol

Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar y 15fed o Orffennaf,2020

1. Cyfrif Cadw

Balans a ddygwyd ymlaen (05.06.20)	50,671.12
+ Ad-daliad TAW	682.97
+ Llog	18.99
Balans ar derfyn busnes 15fed o Orffennaf, 2020	**£51,373.08**

2. Cyfrif Siec

Balans a ddygwyd ymlaen (05.06.20)	**4532.41**
+ claddedigaethau	1500.00
- 101467 Cyflog y Clerc (Mai)	465.20
- Cyllid y Wlad (Mai)	105.80
- 101468 Arian man	350.00
- 101469 Cyflog y Clerc (Mehefin)	465.40
- Cyllid y Wlad (Mehefin)	105.60
Balans ar derfyn busnes 15fed o Orffennaf, 2020	**£4540.41**

	Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 15fed o Orffennaf, 2020 Cyflog y Clerc 465.20 Cyllid y Wlad 105.80 Wyn Williams 2221.00 Aeron Jones (arian ar gyfer chwyn laddwyr) 250.00 **Cyfanswm £3042.00** Anfonodd y Clerc e-bost yn cynnwys yr adroddiad ariannol ynghyd a chysoniad o'r cyfrifon ymlaen i'r cynghorwyr cyn y cyfarfod er mwyn eu trafod. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau am y mis hwn.
8.	**Materion Cynllunio**
	1. Cais – C/20/0496/24/LL – Ysgol Gynradd Rhosgadfan – gosod brithwaith ar ddrychiad blaen yr Ysgol. – **Dim gwrthwynebiad, dim sylwadau.** 2. Cais - C20/0537/24/LL - 8, Chatham Log Cabins, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5TG - Cais ar gyfer codi estyniad unllawr ochr ar yr uned. **Dim gwrthwynebiad, dim Sylwadau.**
9.	**Gohebiaeth a chylchgronau**
	a) Cyngor Gwynedd – Cau ffordd ger Ysgol Rhosgadfan 30/07/20 – adroddwyd rhybudd CG i gau'r ffordd. b) Cyngor Gwynedd – Cau Ffordd Ffrwd Cae Du + Rhos Isaf – adroddwyd rhybudd CG i gau'r ffyrdd. c) Cyngor Gwynedd – barn / pwyntiau i Gyngor Gwynedd ystyried wrth ail agor yr economi / twristiaeth yn lleol. Adroddwyd cynnwys yr e-bost.
10.	**Materion y cyfarfod nesaf**
	RD - Llwybrau - Rhos Isaf, Capel Bryn am Garmel - coeden ar draws giât - gadael i Glerc Llandwrog wybod. RD – Moel Smytho – coedwig, llwybr wedi cau oherwydd coed wedi disgyn. RD – Sbwriel ar Lon Wen – AMJ yn mynd i drefnu criw i gasglu'r sbwriel. HR – Ffrwd Cae Du – blwch postio angen paent (Royal Mail). MW – Tan Gaer – gwastraff chwarel wedi ei roi i lawr. Tir y Goron – AMJ i gysylltu gyda Dion. **Cyfarfod nesaf: Nos Fercher, 19eg o Awst 2020** **Lleoliad – Ar-lein drwy Microsoft Teams**